Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	**Gweithredu**
PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carole-Anne Davies; Christina Macaulay; Gareth Wyn Jones; Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Kay Andrews; Miriam Griffiths; Robert Pickard; Tony Akins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Mark Richards, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **HEFYD YN BRESENNOL**: Linda Tomos (CyMAL) a Hannah Iqbal fel sylwedyddion.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr Aelodau, Linda Tomos, a Hannah Iqbal (mentorai'r Llywydd ar y rhaglen Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus) i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell; Keshav Singhal a Lesley-Anne Kerr (CyMAL).	
Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod y Rhaglen Newid, cynllunio ariannol, sganio'r gorwel, a chawsant eu briffio arnynt. ***Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd ond nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 COFNODION 5.1 <u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyo Cofnodion 11 Rhagfyr 2014 gydag un cywiriad sef nodi yn 8.2 bod Laurie Pavelin hefyd wedi gadael y cyfarfod i fynd i angladd David Vokes, cyn-Ymddiriedolwr. Cymeradwyo Cofnodion 20 Ionawr 2015 gydag un cywiriad sef cywrio sillafiad y "Welch Regiment" yn 1.3.	
3 MATERION YN CODI o gofnodion 11 Rhagfyr 2014 ac 20 Ionawr 2015 3.1 Nid oedd materion yn codi na fyddai'n cael eu trafod fel rhan o'r agenda.	
4 GWELEDIGAETH AMGUEDDFA CYMRU: YSBRYDOLI POBL, NEWID BYWYDAU	

Nodiadau	**Gweithredu**
4.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 4.2 Adroddwyd: Gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod y Dirprwy Weinidog wedi mynegi ei gefnogaeth i weledigaeth newydd yr Amgueddfa yn ystod cyfarfod chwe-misol rheolaidd yr Amgueddfa. Roedd y Weledigaeth a gyflwynwyd yn cynnwys ymateb o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar. Nododd yr Aelodau y byddai'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi a'i dosbarthu yn fewnol ac yn allanol, ar nifer o lwyfannau ac mewn defnyddiau print. 4.3 Pwysleisiodd yr Aelodau werth "ysbrydoli pobl, newid bywydau" o ran eiriolaeth ac roeddent yn awyddus iddo gael ei ddefnyddio'n eang yn nefnyddiau brand a chyfathrebu yr Amgueddfa. 4.4 Nododd yr Aelodau bwysigrwydd rhanddeiliaid strategol o ran cyfrannu at waith eiriolaeth yr Amgueddfa. 4.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Weledigaeth yn cael ei chymeradwyo, bod y Cynllun Strategol tair blynedd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi, a bod yr Amgueddfa'n ystyried cyfleoedd i'r Ymddiriedolwyr drafod partneriaethau, rhanddeiliaid ac eiriolaeth.	Yr Uwch Dîm Rheoli
5 STRATEGAETH ADDYSG A CHYFRANOGIAD 5.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli. 5.2 Adroddwyd: Gan y Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli mai un strategaeth oedd ar gyfer yr Amgueddfa gyfan. Roedd ymgynghori â'r staff ar bob safle ac ag adrannau wedi helpu i sefydlu hyn ac roedd y broses yn annog ffordd newydd o weithio. Roedd y strategaeth yn un weithredol, a fyddai'n cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn dal i adlewyrchu materion oedd yn codi a'r cyd-destun ehangach. Gan fod gwaith yr Amgueddfa yn seiliedig ar waith ymchwil a thystiolaeth, y gobaith oedd y byddai'n chwarae rhan flaenllaw yn y sector. Roedd cyfleoedd i ddysgu yng nghyd-destun yr Amgueddfa yn wahanol i gyfleoedd dysgu lleoliadau eraill. Fel y darparwr addysg mwyaf yng Nghymru, rydym yn dal i drafod gyda chyrff pwysig fel Estyn. Rydym hefyd yn datblygu dulliau mwy strategol o gynnal rhaglenni ar y cyd â phartneriaid fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Nododd yr Aelodau y berthynas rhwng y strategaeth hon a'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol sy'n cael ei datblygu. 5.3 Amlinellodd y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol sut y bu'r tîm Addysg yn gweithio ac yn datblygu'r strategaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, trwy'r Rhaglen Newid a'r Weledigaeth oedd yn cael ei datblygu. Trwy archwilio'r ddarpariaeth bresennol a thrwy waith ymchwil oedd wedi'i seilio ar dystiolaeth, bu modd i'r tîm Addysg bennu meysydd strategol allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys y Ardaloedd Arloesi a oedd yn cefnogi argymhellion yr Adolygiad Diwylliant	

Nodiadau	Gweithredu
a Thlodi, yn ogystal â Iechyd a Lles. Llongyfarchodd yr Aelodau y Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli, y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol a'r tîm ehangach ar y strategaeth ac am ddatblygu dull gweithredu sy'n cynnwys yr Amgueddfa gyfan. Nododd yr Aelodau y cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chynhyrchu incwm a gyflwynwyd yn y strategaeth ynghyd â'r cysylltiadau holistig rhyngddi a strategaethau eraill. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod y strategaeth yn nodi y byddai'n adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a wnaed eisoes a'i bod am fwrw ymlaen i ddatblygu cynulleidfaoedd targed. Nododd yr Aelodau'r cysylltiadau rhwng partneriaethau, gwaith rhyngwladol, cyllido a'r amgylchedd digidol. Efallai y bydd yr Amgueddfa am fapio meini prawf Estyn ar gyfer gwerthuso answdd a chost-effeithlonrwydd yn erbyn ei chanlyniadau dysgu ei hunan. Nododd yr Aelodau bod cyfleoedd i'r Amgueddfa gynnig cymwysterau fel rhan o'i darpariaeth. 5.4 Nododd yr Aelodau sut yr oedd staff yn cael eu gwobrwyo a sut yr oeddent yn rhannu eu profiadau dysgu gydag eraill. Roedd cyrsiau mentora achrededig yn cael eu datblygu gyda'r Adran Adnoddau Dynol ar gyfer y sefydliad cyfan ac roedd yr Adran Addysg yn eu treialu. Roedd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a'r Adran Ddatblygu yn help i greu ceisiadau effeithiol i godi arian. 5.5 Mynegodd y Llywydd ei gwerthfawrogiad o'r tîm ac o'r arweiniad pwysig a roddwyd gan y Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli. 5.6 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny a bod y strategaeth yn cael ei chymeradwyo. Bod y gyfarwyddiaeth yn ystyried sut y gall y Bwrdd ystyried y materion athronyddol a strategol sy'n codi o weithio mewn partneriaeth.	Yr Uwch Dîm Rheoli
6 STRATEGAETH DROS DRO AR GYFER DATBLYGU CASGLIADAU 6.1 <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan y Ceidwad Gwasanaethau Casgliadau. 6.2 <u>Adroddwyd:</u> Gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol mai bwriad y strategaeth dros dro oedd galluogi'r Amgueddfa i gadw'i statws fel Amgueddfa Achrededig; statws a roddwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. 6.3 Nododd yr Aelodau bod peth gwaith diweddaru eisoes wedi'i wneud ar y ddogfen ond bod angen rhagor o newidiadau cyn ei chyflwyno. Nododd yr Aelodau bod gan bartneriaethau ran bwysig i'w chwarae yn helpu i ddatblygu meysydd casglu allweddol ar gyfer y dyfodol, er enghraifft ym maes dylunio. 6.4 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny a bod y Strategaeth Dros Dro ar gyfer Datblygu Casgliadau yn cael ei chymeradwyo ar gyfer ei chyflwyno i	

Nodiadau	Gweithredu
Gyngor Celfyddydau Lloegr, gyda'r newidiadau a ganlyn: bod y cyfeiriad at y Weledigaeth newydd yn cael ei gynnwys; bod rôl, statws a chyrhaeddiad pwysig ac unigryw'r Amgueddfa fel sefydliad cenedlaethol yn cael eu cofnodi; ac y nodir y bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn y strategaeth newydd. Yn ogystal, bod y cyfeiriad at y grant caffael sbesimenau'n cael ei newid i adlewyrchu'r sefyllfa ariannu gyfredol, a bod cyfeiriad at waith pwysig y Grŵp Cynghori Celf yn cael ei gynnwys. Bod y deunydd oedd yn gysylltiedig â dyddiad yn cael ei ddiweddaru er mwyn sicrhau bod y ddogfen, ar y cyfan, yn cefnogi ymgais yr Amgueddfa i gadw'i hachrediad.	Ceidwad Gwasanaethau Casgliadau
7 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, BRIFFIAD CHWARTEROL CHWARTER 2, MATERION CYFREDOL 7.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 7.2 Adroddwyd: Cofnododd y Pennaeth Polisi a Chynllunio bod cynnydd ardderchog wedi'i wneud dros y chwarter diwethaf gyda ffigurau'r ymwelwyr yn uwch na'r targed ac yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi mai ychydig iawn o ostyngiad a fu yn nifer yr ymweliadau â'r wefan ar ôl iddi gael ei hailwampio. 7.3 Rhoddodd y Llywydd adroddiad ar y cyfarfod chwemisol a gafwyd yn ddiweddar gyda'r Dirprwy Weinidog. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd cynllunio ariannol a Gweledigaeth newydd yr Amgueddfa. Cytunodd y Llywydd, y Trysorydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ei fod yn gyfarfod cadarnhaol. Fodd bynnag, bu datblygiadau pellach yn gysylltiedig â gwaith cynllunio ariannol yr Amgueddfa ac mae trafodaethau ar y gweill gyda Linda Tomos – Cyfarwyddwr CyMAL, a'r Dirprwy Weinidog. 7.4 Adroddodd Linda Tomos fod cyflwyniad yr Amgueddfa i'r Dirprwy Weinidog yn rhagorol ac y bydd yn ceisio sicrhau bod y materion yn cael eu taclo yn fuan. 7.5 Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'w gydweithwyr ac, yn arbennig i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, am eu gwaith yn paratoi'r briffiadau ar gyfer y Dirprwy Weinidog. Nododd yr Aelodau bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cael cyfarfod cadarnhaol gyda Julie Williams – Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru yn ddiweddar, a'i bod yn siarad yn uchel am waith yr Amgueddfa gyda phartneriaid a'i gwaith i fynd i'r afael â thlodi plant. Tynnodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol sylw at y ffaith mai dim ond yr Amgueddfa allai gyflawni rhai agweddau ar ein gwaith gwyddonol a'n gwaith ym maes cynhwysiant. 7.6 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod yr Amgueddfa'n cysylltu'n rheolaidd â CyMAL â rhagor o storïau newyddion cadarnhaol ffurfiol ac anffurfiol sy'n dangos cyrhaeddiad ac effeithiau'r Amgueddfa.	Yr Uwch Dîm Rheoli

Nodiadau	Gweithredu
Gadawodd David Anderson a Neil Wicks y cyfarfod bryd hynny.	
8 DIWEDDARIAD AR BROJECT CREU HANES SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU 8.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu. 8.2 Adroddwyd: Bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn hybu'r project ailddatblygu fel man cyfeirio ar gyfer ceisiadau eraill fel ffordd o gadarnhau eu hadolygiad cadarnhaol o waith yr Amgueddfa yn Sain Ffagan. Roedd cofnodion cyfarfod Grŵp Comisiynu'r Project yn ddiweddar yn cofnodi trafodaethau'r grŵp. Nododd yr Aelodau bod y cais i Sefydliad Wolfson wedi'i gyflwyno a bod cyfleoedd i gysylltu y People's Health Trust â gwaith yr Amgueddfa ym maes lles. Nododd yr Aelodau y cynnydd ynghylch enwi'r Amgueddfa. 8.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
9 MATERION CASGLIADAU 9.1 **Adroddiad Casgliadau ac Ymchwil** 9.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 9.1.2 Adroddwyd: Cyflwynodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu yr adroddiad i'r Aelodau. 9.1.3 Cofnododd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o ansawdd arddangosfa Artes Mundi a'r cyflwyniadau a gafwyd ar draws wahanol safleoedd, yn cynnwys Oriel Tŷ Turner. 9.1.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny. 9.2 **Benthyciadau Rhyngwladol** 9.2.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu. 9.2.2 Adroddwyd: Y byddai'r ceisiadau am Fenthyciadau Rhyngwladol yn cael eu hystyried gan y Grŵp Cynghori Celf yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. 9.2.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod y benthyciadau'n cael eu cymeradwyo os oedd y Grŵp Cynghori Celf o blaid. 9.3 **Eitem Ychwanegol – Eitemau i'w Dileu o'r Casgliadau** 9.3.1 Derbyniwyd: Adroddiad a osodwyd gerbron gan y Cyfarwyddwr Addysg,	

Nodiadau	Gweithredu
Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol. 9.3.2 Adroddwyd: Bod y Bwrdd wedi cael cais i ystyried yr eitemau i'w dileu o'r casgliadau. 9.3.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny ac fe gymeradwywyd dileu eitemau o'r casgliadau.	
10 MATERION PWYLLGORAU 10.1 Derbyniwyd a Nodwyd: Cofnodion drafft: i. Grŵp Comisiynu Project Amgueddfa'r Gwyddorau Naturiol 23 Hydref 2014 ii. Mentrau AOCC Cyf 29 Ionawr 2015 iii. Pwyllgor Archwilio 10 Chwefror 2015 iv. Pwyllgor Adolygu Perfformiad 11 Chwefror 2015 v. Ymddiriedolwyr Pensiwn 21 Hydref ac 11 Chwefror 2015 vi. Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 26 Chwefror 2015 vii. Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau 11 Mawrth 2015 (gosodwyd gerbron) 10.2 Adroddwyd: Bod yr Aelodau'n falch o nodi bod y Pwyllgor Archwilio wedi cael cyflwyniad yn amlinellu'r sefyllfa o ran cynllunio ariannol – roedd eisoes wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Bwrdd. O gofio am ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor, roedd yn bwysig iddo gael trosolwg o sefyllfa'r Amgueddfa. O ran y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, nododd yr Aelodau ei rôl yn goruchwylio'r Gofrestr Risg Strategol. Roedd y Llywydd wedi gwahodd yr Ymddiriedolwraig Kay Andrews i eistedd ar y Pwyllgor Adolygu Perfformiad. Nododd y Bwrdd ei ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am ddod i gyfarfod Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Roedd y Bwrdd yn ddiolchgar i Ymddiriedolwyr y Cynllun am eu hagwedd gadarnhaol ac adeiladol at fynd i'r afael â'r newidiadau angenrheidiol. Ei flaenoriaethau oedd sicrhau iechyd a lles y cynllun ac, ar yr un pryd, sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer cynifer ag y bo modd o'r staff. O ran cofnodion Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan, 26 Chwefror, a gyflwynwyd ac a ddiwygiwyd, nododd yr Aelodau bod angen diweddariad ychwanegol. 10.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Gofrestr Risg Strategol yn cael ei hychwanegu at dudalennau gwe'r Ymddiriedolwyr, eu bod yn cytuno i benodiad Kay Andrews i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad, a bod cofnodion Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan yn cael eu diwygio eto.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
11 UNRHYW FATER ARALL 11.1 Adroddwyd: Soniodd y Llywydd wrth yr Aelodau am y broses o Werthuso	

Nodiadau	**Gweithredu**
Ymddiriedolwyr sydd wrthi'n cael ei threfnu. Yn dilyn cyngor gan yr Uwch Dîm Rheoli, argymhellodd y Llywydd y dylai'r Arolygon Effeithlonrwydd a gynhelir gan y Bwrdd, y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio gael eu gwasgaru fel nad yw'r adolygiadau hyn a'r gwaith Gwerthuso Ymddiriedolwyr yn digwydd yn yr un flwyddyn. 11.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod yr Arolygon Effeithlonrwydd yn cael eu cynnal yn 2016.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
12 AGENDA'R BWRDD STRATEGOL 12.1 Nododd yr Aelodau yr eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ar 18 Mehefin 2015.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am, 18 Mehefin 2015 yng Ngwesty'r Seiont Manor, Llanberis.	